



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Costau a Manteision y Rhaglen Cefnogi Pobl



Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMWIL GYMDEITHASOL
Y LLYWODRAETH

CSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Cynnwys

1.0	Rhagarweiniad	3
2.0	Methodoleg	5
2.1	Adolygiad o'r llenyddiaeth	5
2.2	Cadarnhau'r amcangyfrifon effaith	5
2.3	Model o'r effeithiau	6
2.4	Cyfyngiadau allweddol	7
3.0	Costau a lefelau defnyddwyr gwasanaeth	9
4.0	Effeithiau	12
4.1	Merched yn ceisio lloches rhag trais yn y cartref	12
4.2	Pobl gydag anableddau dysgu	13
4.3	Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl	13
4.4	Pobl gyda phroblemau Alcohol	14
4.5	Pobl gyda phroblemau Cyffuriau	15
4.6	Pobl ifanc sengl ddigartref a phlant yn gadael gofal	16
4.7	Cyn-droseddwyr	17
4.8	Pobl ddigartref neu botensial ddigartref	18
4.9	Pobl hŷn	18
5.0	Darganfyddiadau a Chasgliadau	21
5.1	Darganfyddiadau yn ôl grwpiau cleientiaid	21
5.2	Casgliadau	31

1.0 Rhagarweiniad

Nod y rhaglen Cefnogi Pobl yw helpu pobl agored i niwed i ennill a chadw eu hannibyniaeth drwy aros yn eu cartrefi eu hunain. Drwy fframwaith polisi a chyllido integredig, nod y rhaglen yw darparu gwasanaethau tai strategol o ansawdd uchel sy'n gost-effeithiol a dibynadwy, ac yn cyfannu'r gwasanaethau gofal a ddarperir eisoes.

Lansiwyd y rhaglen ar 1 Ebrill 2003 i nodi newid yn y modd y mae gwasanaethau tai cymorth a gwasanaethau cysylltiedig yn cael eu trefnu, eu darparu a'u cyllido. Gellid disgrifio'r sefyllfa cyn hyn fel un *ad hoc*, heb fawr ddim neu ddim cynllunio strategol ac ychydig iawn o ddarpariaeth ar sail anghenion na gwasanaethau integredig. Datblygwyd Cefnogi Pobl i newid y sefyllfa hon drwy:

- ddatblygu nodau ac amcanion polisi penodol ar gyfer tai cymorth. Mae hyn wedi cynnwys amcan sylfaenol bod angen i dai cymorth hyrwyddo, cynnal a gwella annibyniaeth i grwpiau o gleientiaid sydd wedi'u targedu'n benodol drwy, er enghraifft, ddefnyddio gwasanaethau tymor byr a datblygu 'cymorth hyblyg';
- datblygu fframwaith cydlynol ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar lefel leol; a
- newid yn y drefn o gyllido gwasanaethau o fod yn gyllid ar sail galw drwy fudd-daliadau tai i gyllid gydag arian cyfyngedig drwy ddyrannu grantiau i awdurdodau lleol.

Er bod y rhaglen yn un ar gyfer y DU gyfan, ceir gwahaniaethau yn yr elfennau hyn ac yng ngweithrediad y rhaglen ym mhob un o wledydd y DU. Er enghraifft, mae'n well gan Lywodraeth y Cynulliad ddull comisiynu ar sail mwy o gydweithrediad a phartneriaeth na'r farchnad gystadleuol sy'n cael ei hyrwyddo yn Lloegr.¹ Hefyd, yng Nghymru mae'r cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl yn cael ei rannu yn gyllid llywodraeth ganolog a chyllid llywodraeth leol. Yn Lloegr, mae'r rhaglen yn cael ei hariannu drwy grantiau gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog gynt) i Awdurdodau Gweinyddol (yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r rhaglen leol).

Ceir dwy ffrwd gyllido yng Nghymru:

1. Mae'r Grant Cefnogi Pobl (GCP) yn cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol ac fe'i defnyddir i ariannu gwasanaethau cymorth lle codir tâl amdanynt. Mae gwasanaethau GCP yn ymwneud yn bennaf â darparu cymorth tymor hir, gan fwyaf i bobl hŷn, pobl gydag anabledau dysgu a phobl gyda phroblemau iechyd meddwl.
2. Mae'r Grant Refeniw Cefnogi Pobl (GRCP) yn cael ei weinyddu gan Lywodraeth y Cynulliad yn uniongyrchol i Ddarparwyr Cymorth Achrededig, ac yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau cymorth lle na chodir tâl amdanynt. Mae'n ymwneud yn bennaf â darparu cymorth tymor byrrach.

¹ Gan fod comisiynu gwasanaethau yn cael ei wneud yn lleol yn Lloegr, yn ymarferol gall gwahanol Awdurdodau Gweinyddol wneud gwahanol benderfyniadau ynghylch i ba raddau y maent yn ffurfio partneriaethau neu'n cystadlu.

Dangosir y modd y mae'r ddwy ffrwd gyllido wedi eu rhannu yn adran 4.0 isod.

Mae nodau allweddol Cefnogi Pobl yn cynnwys:

- hyrwyddo annibyniaeth i gleientiaid a gwella ansawdd eu bywydau; ac
- arbed costau i wasanaethau cyhoeddus eraill drwy:
 - alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn lle darparu opsiynau drytach fel cartrefi gofal preswyl neu wasanaethau digartrefedd ar eu cyfer; ac
 - atal argyfyngau a allai arwain at denantiaethau yn methu, a'r costau cysylltiedig nes ymlaen i'r gwasanaethau cyhoeddus o helpu pobl allan o'r argyfyngau hyn.

Mae Cefnogi Pobl yn cysylltu i nifer o feysydd polisi eraill gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys *Creu'r Cysylltiadau* sy'n annog cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn natblygiad a dyluniad gwasanaethau a dargedir at bobl agored i niwed sydd ymhlith y rhai anoddaf i'w hysgogi yng Nghymru. Mae *Bywydau Bodlon*, *Cymunedau Cefnogol*, strategaeth newydd ddrafft ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru (mewn cyfnod o ymgynghori ar hyn o bryd) yn cyfeirio at werth cynnal annibyniaeth pobl a'u cynnwys yn gynt mewn penderfyniadau, sef eu cefnogi drwy eu galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain a pharhau i fod yn gyfrifol am eu dyfodol eu hunain. Mae'r *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol* ar gyfer pobl hŷn yn tynnu sylw at yr angen i ymyrryd yn fuan i gynnal annibyniaeth ac yn pwysleisio gwerth herio dibyniaeth. Mae cynnal annibyniaeth yn un o'r nodau yn y *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru* ac mae'r *Strategaeth Iechyd Meddwl* a'r *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl* yn sôn am werth cynhwysiant cymdeithasol. Mae gan y rhaglen Cefnogi Pobl hefyd gysylltiadau i *Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan* ac i'r *Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol*. Mae gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cyfrannu'n ogystal at strategaethau lleol fel y *Strategaethau Diogelwch Cymunedol* a'r *Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles*.

Un o'r cwestiynau mawr sy'n wynebu Llywodraeth y Cynulliad yw: beth yw gwerth Cefnogi Pobl? Gall gwasanaethau Cefnogi Pobl helpu i atal neu ohirio gwasanaethau cymorth drytach fel cartref nyrsio neu breswyl, derbyn rhywun i'r ysbyty neu ddefnyddio llety dros dro. Bydd gan dystiolaeth ynghylch maint effaith y rhaglen oblygiadau ymarferol i'r strategaeth Cefnogi Pobl tra'n rhoi syniad i awdurdodau lleol sut y dylent ddefnyddio eu grant Cefnogi Pobl i gael budd o'r manteision ariannol hyn.

O ystyried maint y gyllideb Cefnogi Pobl, a dechreuad diweddar y rhaglen, penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu'r astudiaeth hon. Ei nod yw mesur manteision y rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru, yn bennaf y manteision i bwrs y wlad.

2.0 Methodoleg

Mae'r astudiaeth hon yn dilyn ymlaen o'r astudiaeth yng nghyswllt Manteision y Rhaglen Cefnogi Pobl (*Benefits Realisation of the Supporting People Programme*, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 2004) a wnaed ar gyfer Lloegr ac a gyflawnwyd hefyd gan Matrix. Mae'r astudiaeth ar gyfer Lloegr yn 2004 a'r astudiaeth hon ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfuno adolygiadau desg o'r llenyddiaeth, ymgynghori gyda rhanddeiliaid a modelu economaidd. Ni chasglwyd unrhyw ddata sylfaenol. Defnyddiodd yr astudiaeth hon yr astudiaeth ar gyfer Lloegr drwy adeiladu ar yr adolygiad o'r llenyddiaeth, yr ymgynghori gyda rhanddeiliaid a'r modelu tra'n ceisio cywiro rhai o'i phrif wendidau. Sefydlwyd panel ymgynghorol o dri academydd wedi eu lleoli yng Nghymru i oleuo'r prosiect.

2.1 Adolygiad o'r llenyddiaeth

Roedd yr adolygiad ar gyfer Lloegr yn nodi ac adolygu'r dystiolaeth bresennol ynghylch y manteision cymorth tai i bob grŵp cleientiaid. Ni wnaed hyn fel adolygiad systematig oherwydd prinder amser, ond casglwyd gwybodaeth drwy alw am dystiolaeth, chwiliadau ar y we a thrwy fynd ar ôl cyfeiriadau dogfennol. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd ei hasesu'n feirniadol yn ôl nifer o feini prawf gan gynnwys prydlondeb, perthnasedd, maint neu raddfa, a methodoleg. Yn ôl yr adolygiad o'r llenyddiaeth, er bod corff o ymchwil ansoddol sy'n nodi'r mathau o fanteision sy'n cael eu hadrodd neu a ddisgwylir o wasanaethau Cefnogi Pobl, hyd yma ni wnaed unrhyw werthusiad mawr o gymorth tai ar gyfer unrhyw grŵp cleientiaid ac nid oedd unrhyw wybodaeth am yr effaith y mae'r gwasanaethau hyn yn ei chael ar ymddygiad a phrofiadau'r bobl sy'n eu derbyn. Daeth yr astudiaeth hon i'r casgliad nad oedd y sefyllfa wedi newid llawer. Mae'r astudiaeth hon wedi adeiladu ar yr adolygiad a wnaed eisoes o'r llenyddiaeth tra'n cynnwys hefyd ddarganfyddiadau o alwadau eraill am dystiolaeth gan yr Awdurdodau Gweinyddol yn Lloegr. Lle'r oedd tybiaethau ar gyfer y model yn seiliedig ar dystiolaeth o'r adolygiad o'r llenyddiaeth, aseswyd perthnasedd y dystiolaeth honno ar gyfer yr astudiaeth newydd drwy:

- Gadarnhau a gafodd yr ymchwil ei diweddarau ers astudiaeth 2004; a thrwy
- Nodi gyda pha gleientiaid y gwnaed yr ymchwil ac asesu a oeddent yn berthnasol i Gymru (er enghraifft, cadarnhau a oedd yr astudiaeth yn seiliedig ar broffil ethnig a oedd yn amhriodol yn sefyllfa Cymru).

2.2 Cadarnhau'r amcangyfrifon effaith

Roedd yr astudiaeth ar gyfer Lloegr wedi datblygu cyfres o dybiaethau parod ynghylch effaith Cefnogi Pobl, mewn ymgynghoriad ag adrannau llywodraeth ganolog yn Lloegr. Defnyddiwyd y tybiaethau fel sail ar gyfer y tybiaethau a gadarnhawyd fel rhan o'r astudiaeth hon. Rhoddir rhestr o'r tybiaethau hyn yn adran 4.0 isod. Cafodd holiadur ei ddatblygu i roi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ar y tybiaethau hyn, ac fe'i hanfonwyd at:

- brif swyddogion Cefnogi Pobl ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru;
- aelodau o Grŵp Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan (swyddogion prawf yn bennaf); ac at
- gynrychiolwyr y darparwyr (drwy Cymorth Cymru).

Cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd gyda rhanddeiliaid allweddol o ddwy adran gwasanaethau cymdeithasol (Powys a Thorfaen). Trafodir y broses gadarnhau hon ymhellach yn adran 4.0.

2.3 Model o'r effeithiau

Mae Matrix wedi modelu manteision posibl y gwasanaethau Cefnogi Pobl i ddetholiad o grwpiau cleientiaid dros gyfnod o flwyddyn ac wedi tybio bod yr holl fanteision yn digwydd o fewn blwyddyn i ddarparu'r gwasanaethau i'r unigolion. Yn gyffredinol, mae astudiaethau o'r fath yn gymhleth a cheir nifer o drafferthion o ran ansawdd y dystiolaeth a gofynion data'r gwaith modelu. Mae prinder y dystiolaeth o effaith manteision y gwasanaethau Cefnogi Pobl wedi arwain Matrix at ddatblygu nifer o dybiaethau parod er mwyn cwblhau'r gwaith modelu. Am y rhesymau hyn, bydd y darganfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn newid wrth i'r sylfaen dystiolaeth dyfu, wrth i ddulliau modelu gael eu datblygu ymhellach ac wrth i'r tybiaethau gael eu mireinio.

Er mwyn canfod manteision y rhaglen Cefnogi Pobl, roedd yn bwysig deall ar y dechrau beth a fyddai'n digwydd pe na bai'r cyllid Cefnogi Pobl ar gael. Rydym wedi tybio *na fyddai gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y rhaglen Cefnogi Pobl yn cael eu 'cymryd drosodd' gan ffynonellau cyllido eraill pe bai'r rhaglen Cefnogi Pobl yn dod i ben*. Felly, mae ein dull yn cymharu'r rhaglen Cefnogi Pobl bresennol â sefyllfa lle na fyddai cyllid Cefnogi Pobl yn cael ei ddsbarthu o gwbl i lywodraethau lleol, nac ychwaith i'r gwasanaethau. Os na wneir y dybiaeth hon, gellir dychmygu sefyllfa lle mae cyllid y rhaglen, pe na bai ar gael, yn cael ei ailddosbarthu drwy ffrydiau cyllido eraill gan lywodraeth ganolog neu leol i gyrraedd yr un gwasanaethau a chleientiaid (er bod hyn yn annhebygol iawn yn ymarferol). Os cymharir hyn gyda'r rhaglen Cefnogi Pobl bresennol, ni fyddai manteision yn deillio o'r rhaglen o gwbl. Byddai'r rhaglen ond yn ffordd o ddsbarthu cyllid i wasanaethau yn hytrach na'n sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu.

Isod rhoddir enghraifft barod o sut y mae effeithiau'n cael eu modelu. Ceir amrywiadau yn y modd y caiff pob effaith ei modelu gan ddibynnu ar y data sydd ar gael, ac mae nifer yn dibynnu ar gyfres o gyfrifiadau. Mae'r enghraifft isod yn un gymharol syml, ond mae'n dangos strwythur rhesymegol y broses.

Lleihad yn y nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty am resymau iechyd meddwl			Sylwadau
A	Nifer o bobl gyda phroblemau lechyd Meddwl sy'n derbyn Cefnogi Pobl	2,693	Data defnyddwyr gwasanaeth wedi'i gasglu gan awdurdodau lleol a mapiau cyflenwad y Grant Refeniw Cefnogi Pobl.
B	Canran y bobl sy'n derbyn Cefnogi Pobl sy'n cael eu derbyn am driniaeth lechyd Meddwl	25.00%	Tybiaeth geidwadol ar sail ymgynghori.
C	Nifer y bobl sy'n cael eu derbyn am resymau iechyd meddwl y disgwylir iddynt dderbyn Cefnogi Pobl	673	25% o gyfanswm nifer y defnyddwyr gwasanaeth. (B x A)
Ch	Lleihad yn y nifer sy'n cael eu derbyn am resymau iechyd meddwl oherwydd Cefnogi Pobl	25.00%	Tybiaeth effaith ar sail ymgynghori.
D	Lleihad yn y nifer sy'n cael eu derbyn	168	25% o'r nifer y disgwylir iddynt gael eu derbyn (Ch x C).

<i>Dd</i>	Cost digwyddiad iechyd meddwl difrifol	£6,000	Wedi ei gasglu o ddata eilaidd.
	Cyfanswm wedi ei arbed o leihad yn y nifer sy'n cael eu derbyn am resymau iechyd meddwl	£1,009,973	Cost digwyddiad iechyd meddwl difrifol (D) x Lleihad yn y nifer sy'n cael eu derbyn (Dd).

Ffigwr 1: Enghraifft barod o fodel

2.4 Cyfyngiadau allweddol

Ar wahân i'r diffyg tystiolaeth gref ar gyfer gwneud tybiaethau ynghylch effaith y rhaglen Cefnogi Pobl ar ei sail, mae gan yr astudiaeth hon nifer o gyfyngiadau allweddol:

- Nid yw'r astudiaeth hon yn ystyried amrywiadau yn nwyster ac yn y math o gymorth sy'n cael ei gynnig i ddefnyddwyr gwasanaeth;
- Nid oedd modd ymgorffori ansawdd gweithrediad y rhaglen yn y modelau;
- Nid yw'r astudiaeth yn cynnig gwasanaethau amgen y gellid eu cynnig pe na bai'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gael;
- Nid yw'r astudiaeth ond yn cynnwys arbedion a wnaed mewn un flwyddyn; ac
- Nid yw'r model hwn yn cynnwys manteision lle nad oes digon o ddata i gyfiawnhau eu cynnwys yn y modelau, neu lle nad yw ymchwil flaenorol wedi mesur y manteision.

O ystyried y cyfyngiadau hyn, mae'r astudiaeth wedi mabwysiadu dull ceidwadol o dybio neu amcangyfrif effaith Cefnogi Pobl. Fel y trafodwn ymhellach yn adran 4.0, mae rhanddeiliaid wedi adrodd lefelau effaith uwch na'r rhai a ddewiswyd ar gyfer y model, ond defnyddiwyd yr amcangyfrifon is i leihau effaith cyfyngiadau'r fethodoleg.

Mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar naw o grwpiau cleientiaid. Dewiswyd y grwpiau hyn oherwydd argaeledd data ar gyfer y modelau, yn enwedig ynghylch defnydd a chostau cysylltiedig gwasanaethau cyhoeddus yn ôl grwpiau cleientiaid penodol.

Cynhwysir y grwpiau cleientiaid canlynol yn yr astudiaeth hon:

- Merched yn ceisio lloches rhag trais yn y cartref
- Pobl gydag anableddau dysgu
- Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl
- Pobl gyda phroblemau Alcohol
- Pobl gyda phroblemau Cyffuriau
- Pobl ifanc sengl ddigartref a phlant yn gadael gofal
- Cyn-droseddwyr
- Pobl ddigartref neu botensial ddigartref
- Pobl hŷn

Nid yw'r grwpiau cleientiaid canlynol wedi eu cynnwys yn yr astudiaeth.

- Pobl gyda salwch cronig gan gynnwys AIDS / HIV a chyflyrau cysylltiedig
- Rhieni sengl agored i niwed
- Ffoaduriaid

- Pobl gydag anabledd corfforol sydd angen cymorth arnynt.

Ynghyd â'r grwpiau cleientiaid a eithriwyd uchod, mae larymau, gofal cymunedol a mathau arbennig eraill o gyllid Cefnogi Pobl hefyd wedi eu heithrio. Nid oedd yn bosibl cyfateb cyfran helaeth o'r holl wariant ar y rhaglen Cefnogi Pobl i grŵp cleientiaid arbennig oherwydd y ffordd y mae'r data wedi'i godio ar gyfer cyllid y Grant Refeniw Cefnogi Pobl. I gyd, mae 83.3 y cant o'r holl wariant wedi ei gynnwys (cyfanswm y gwariant yw £128,493,616).

3.0 Costau a lefelau defnyddwyr gwasanaeth

Casglwyd data ar gyfer costau a nifer y defnyddwyr gwasanaeth yn ystod blwyddyn ariannol 2005-2006, ac mae'r model yn cynnwys 83.3 y cant o'r holl wariant ar y rhaglen Cefnogi Pobl. Ar gyfer gwasanaethau o dan gyllid y GCP, gofynnwyd am ddata gan bob un o'r 22 awdurdod lleol. Dychwelwyd data ar nifer eu defnyddwyr gwasanaeth a'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau sydd wedi eu hanelu'n bennaf at grwpiau cleientiaid penodol. Gofynnwyd i awdurdodau lleol gyfateb eu cyllid a'u defnyddwyr gwasanaeth i'r diffiniadau grwpiau cleientiaid a ddefnyddir gan yr astudiaeth hon, ar sail meini prawf Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer grwpiau cleientiaid cymwys ('rhifau E') yn ogystal â Phobl Hŷn (gweler ffigur 5 isod am restr o'r grwpiau cleientiaid). Ar gyfer gwasanaethau wedi eu cyllido o dan y GRCP, casglwyd data o'r mapiau cyflenwad yng Nghynlluniau Gweithredol Cefnogi Pobl yr awdurdodau lleol unigol, ac o systemau Llywodraeth y Cynulliad.

Gyda pheth o'r data ar gyfer y GCP a'r GRCP, nid oedd union gyfanswm nifer y defnyddwyr gwasanaeth ar gael. Ar gyfer gwasanaethau wedi eu cyllido o dan y GCP, gallai dau awdurdod lleol ond darparu'r nifer o unedau. Ar gyfer gwasanaethau wedi eu cyllido o dan y GRCP, roedd hyn yn berthnasol i lai na 2 y cant o'r holl gyllid. Yn y sefyllfa hon, cafodd cost pob defnyddiwr gwasanaeth mewn grŵp cleientiaid penodol ei chyfrifo ar sail y data a ddychwelwyd gan yr awdurdodau lleol eraill, a chyfrifwyd nifer y defnyddwyr gwasanaeth mewn ardaloedd lle'r oedd ond nifer yr unedau aelwydydd yn wybyddus. Yn hyn o beth, amcangyfrifon yn hytrach na ffigurau cyfan yw'r ffigurau cyffredinol.

Ar gyfer y data GRCP, lle mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu i grwpiau cleientiaid lluosog, mae'r cyllid ar ei gyfer wedi'i rannu'n gyfartal ar draws yr holl grwpiau cleientiaid.

Diffinnir defnyddiwr gwasanaeth fel rhywun sy'n cael cyswllt cychwynnol gyda gwasanaeth, h.y. cyfanswm nifer yr unigolion sydd wedi cael cyswllt â gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

	Grŵp cleientiaid	Data GRCP	Defnyddwyr gwasanaeth GRCP	Gwariant ar bob defnyddiwr gwasanaeth
e1	Merched yn ceisio lloches rhag trais yn y cartref	£8,054,015	2536	£3,175
e2	Pobl gydag anabledau dysgu	£1,268,419	423	£2,995
e3	Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl	£6,901,909	1602	£4,307
e4	Pobl gyda phroblemau alcohol	£2,989,216	844	£3,540
e5	Pobl gyda phroblemau cyffuriau	£3,312,579	655	£5,055
e8	Pobl ifanc sengl ddigartref a phlant yn gadael gofal	£7,174,215	2247	£3,193
e9	Cyn-droseddwyr	£3,657,203	868	£4,214
e10	Pobl ddigartref neu botensial ddigartref	£11,520,963	8284	£1,390

	Pobl hŷn	£229,315	67	£3,422
	Cyfansymiau	£45,107,833	17527	£2,574

Ffigur 2: Costau GRCP a Defnyddwyr Gwasanaeth (2005-06)


	Grŵp cleientiaid	Costau GCP	Defnyddwyr gwasanaeth GCP	Gwariant ar bob defnyddiwr gwasanaeth
e1	Merched yn ceisio lloches rhag trais yn y cartref	£186,749	349	£535
e2	Pobl gydag anabledau dysgu	£35,958,980	2277	£15,792
e3	Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl	£7,911,443	1091	£7,251
e4	Pobl gyda phroblemau alcohol	£635,524	150	£4,236
e5	Pobl gyda phroblemau cyffuriau	£427,947	139	£3,078
e8	Pobl ifanc sengl ddigartref a phlant yn gadael gofal	£189,888	154	£1,233
e9	Cyn-droseddwyr	£30,824	68	£453
e10	Pobl ddigartref neu botensial ddigartref	£2,407,417	752	£3,201
	Pobl hŷn	£14,235,239	22199	£641
	Cyfansymiau	£61,984,011	27179	£2,281

Ffigur 3: Costau GCP a Defnyddwyr Gwasanaeth (2005-06)

	Grŵp cleientiaid	Cyfanswm y costau	Cyfanswm y defnyddwyr gwasanaeth	Gwariant ar bob defnyddiwr gwasanaeth
e1	Merched yn ceisio lloches rhag trais yn y cartref	£8,240,764	2885	£2,856
e2	Pobl gydag anabledau dysgu	£37,227,400	2700	£13,787
e3	Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl	£14,813,352	2693	£5,500
e4	Pobl gyda phroblemau alcohol	£3,624,741	994	£3,646
e5	Pobl gyda phroblemau cyffuriau	£3,740,526	794	£4,710
e8	Pobl ifanc sengl ddigartref a phlant yn gadael gofal	£7,364,103	2401	£3,067
e9	Cyn-droseddwyr	£3,688,027	936	£3,940
e10	Pobl ddigartref neu botensial ddigartref	£13,928,379	9036	£1,541
	Pobl hŷn	£14,464,554	22266	£649
	Cyfansymiau	£107,091,845	44706	£2,395


Ffigur 4: Cyfanswm y costau a'r defnyddwyr gwasanaeth (2005-06)

Er bod y data yma'n rhoi rhywfaint o wybodaeth, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau ynghylch gwerth na pha mor effeithlon yw'r gwahanol ffrydiau cyllido heb wneud llawer mwy o waith. Nid



yw'r ffigurau hyn yn dangos y gwahaniaethau gyda dylunio'r gwasanaethau a'r gwahanol anghenion y mae'r gwasanaethau efallai yn darparu ar eu cyfer. Dangosir y rhaniad cyffredinol rhwng y ddwy ffrwd gyllido o ran costau a defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer y model hwn yn y siartiau isod.

Ffigwr 5: Costau yn ôl ffrwd gyllido (2005-06)



Ffigwr 6: Nifer y defnyddwyr gwasanaeth (2005-06)

4.0 Effeithiau

Mae'r tablau isod yn rhestru'r effeithiau sy'n ffurfio sail y modelau. Cyflawnodd Matrix ymarfer ymgynghori gyda rhanddeiliaid, gan wahodd y cyfranogwyr i wneud sylwadau ar yr effeithiau ac i gynnig eu hamcangyfrifon eu hunain. Defnyddiwyd pump y cant fel lefel 'ddiofyn' lle nad oes unrhyw reswm amlwg na thystiolaeth ddibynadwy i awgrymu fel arall. Roedd rhanddeiliaid yn ei chael yn anodd gwneud sylwadau ar y ffigurau (a oedd yn seiliedig yn bennaf ar yr astudiaeth flaenorol). Y rheswm yn bennaf dros hyn oedd y diffyg tystiolaeth empirig i gefnogi sialensau i'r tybiaethau cychwynnol. Fodd bynnag, yn achos pob rhanddeiliad a ddychwelodd eu holiaduron, cynigiwyd lefelau amcangyfrifon effaith uwch na rhai'r model bob tro. Drwy fynd yn ôl hyn, gellir cymryd bod yr amcangyfrifon effaith yn y model yn rhai ceidwadol.

Dengys y tablau isod y lefelau effaith a ddefnyddiwyd yn y model, ynghyd â'r ymateb cyfartalog a'r ymateb uchaf gan y rhanddeiliaid.

4.1 Merched yn ceisio lloches rhag trais yn y cartref

Maes effaith	Effaith	Model	Cyfartalog	Uchaf
Iechyd Corfforol	Llai yn mynychu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys oherwydd llai o brofiad o drais	80%	80%	80%
	Llai o ymweliadau Meddyg Teulu gan ferched / plant oherwydd digwyddiadau'n ymwneud â thrais, o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl	80%	80%	80%
	Llai o ymweliadau Meddyg Teulu (iechyd cyffredinol) oherwydd Cefnogi Pobl	10%	17%	30%
	Effaith Cefnogi Pobl ar nifer yr ymweliadau cleifion allanol gan ferched / plant	5%	18%	30%
Iechyd Meddwl	Llai o gysylltiadau iechyd meddwl cymunedol gan rai sy'n profi Trais yn y Cartref	5%	18%	30%
	Llai o ferched / plant yn cael eu derbyn i'r ysbyty am resymau iechyd meddwl difrifol	25%	25%	25%
Troseddu	Llai o risg o ymosodiad rhywiol unwaith y mae'r dioddefwr yn derbyn llety a chymorth drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl	80%	80%	80%
	Llai o risg o lofruddiaeth unwaith y mae pobl yn derbyn llety a chymorth drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl, o ystyried bod y trais yn parhau mewn 19% o achosion	80%	80%	80%
Digartrefedd	Canran y bobl sydd wedi eu hatal rhag dod yn ddigartref oherwydd Cefnogi Pobl	50%	50%	50%
	Effaith Cefnogi Pobl ar leihau'r posibilrwydd o denantiaethau yn methu	50%	50%	50%

Ffigwr 7: Effeithiau ar gyfer merched sy'n ceisio lloches rhag trais yn y cartref

Roedd yr amcangyfrifon effaith cychwynnol ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn eisoes yn gymharol uchel, oherwydd sylfaen dystiolaeth well ar gyfer y tybiaethau. Lle defnyddiwyd y lefel ddiofyn o bump y cant, ar gyfer y lleihad yn nifer y cleifion allanol sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a'r lleihad yn nifer y cysylltiadau iechyd meddwl cymunedol, teimlai'r rhanddeiliaid fod yr effaith wirioneddol yn uwch.

4.2 Pobl gydag anableddau dysgu

Maes effaith	Effaith	Model	Cyfartalog	Uchaf
Iechyd Corfforol	Llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty ymhlith y rhai sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	24%	30%
	Llai o bobl yn mynychu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	5%	25%	30%
	Lleihad yn hyd yr arhosiad (achosion cyffredinol sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty)	50%	26%	50%
	Llai o bobl gydag anableddau dysgu yn defnyddio'r Meddyg Teulu	5%	23%	30%
	Llai o bobl gydag anableddau dysgu yn mynychu fel cleifion allanol	5%	17%	30%
Iechyd Meddwl	Lleihad yn hyd yr arhosiad (achosion iechyd meddwl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty)	50%	50%	50%
	Llai o achosion iechyd meddwl yn cael eu derbyn i'r ysbyty, oherwydd Cefnogi Pobl	5%	14%	30%
	Llai o gysylltiadau iechyd meddwl cymunedol ymhlith y rhai sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	11%	20%
Troseddu	Llai o achosion bwrglera oherwydd cyngor gan wasanaethau Cefnogi Pobl	5%	38%	75%
	Llai o droseddu treisgar oherwydd cyngor ar ddiogelwch personol gan wasanaethau Cefnogi Pobl	5%	38%	75%
Digartrefedd	Canran y bobl gydag anableddau dysgu sydd wedi eu hatal rhag dod yn ddigartref oherwydd y rhaglen Cefnogi Pobl	5%	38%	75%
Gofal Cymdeithasol	Canran y bobl sy'n derbyn Cefnogi Pobl a fyddai angen derbyn ymyriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol anstatudol arnynt (gofal cartref – 2 awr yr wythnos)	20%	35%	80%
Gofal Preswyl	Canran y bobl sy'n derbyn Cefnogi Pobl a fyddai wedi bod angen gofal preswyl arnynt pe na bai Cefnogi Pobl ar gael	50%	-	-
	Canran y bobl sy'n derbyn Cefnogi Pobl a fyddai wedi bod angen lleoliadau seibiant i oedolion arnynt pe na bai Cefnogi Pobl ar gael	24%	-	-
	Canran y bobl sy'n derbyn Cefnogi Pobl a fyddai wedi bod angen lleoliadau parhaol i oedolion arnynt pe na bai Cefnogi Pobl ar gael	6%	-	-

Ffigur 8: Effeithiau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu

Lle mae'r model yn amrywio o'r lefel ddiofyn, mae'r rhan fwyaf yn ymwneud ag arhosiad llai ar gyfer achosion iechyd meddwl a chorfforol, a'r angen am ofal preswyl. Mae hyn oherwydd bod Cefnogi Pobl yn helpu defnyddwyr gwasanaeth fel y gellir eu rhyddhau o'r ysbyty. Byddai'r gost o ran gofal preswyl a lleoliadau i oedolion pe bai'r gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael eu dileu (a dim mathau eraill o wasanaeth yn cael eu darparu yn eu lle) yn uchel iawn. Ychwanegwyd yr effaith hon at y model ar ôl anfon yr holiadur effeithiau allan. Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad, ac â chynrychiolwyr o ddwy adran gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn pennu'r lefelau.

4.3 Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl

Maes effaith	Effaith	Model	Cyfart alog	Uchaf
Iechyd corfforol	Llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbwyty ymhlith y rhai sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	22%	30%
	Lleihad yn hyd yr arhosiad (achosion cyffredinol sy'n cael eu derbyn i'r ysbwyty) ymhlith rhai sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	29%	50%
	Llai o bobl yn mynychu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	5%	22%	30%
	Llai o bobl sy'n defnyddio Cefnogi Pobl yn ymweld â'r Meddyg Teulu	20%	18%	20%
Iechyd meddwl	Llai o ymweliadau cwnsela ymhlith y rhai sy'n derbyn Cefnogi Pobl	20%	18%	20%
	Llai o gysylltiadau iechyd meddwl cymunedol ymhlith pobl gyda phroblemau iechyd meddwl sy'n derbyn Cefnogi Pobl	10%	11%	15%
	Llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbwyty am resymau iechyd meddwl, oherwydd Cefnogi Pobl	25%	29%	35%
	Lleihau yn hyd yr arhosiad (achosion iechyd meddwl arbenigol) ymhlith y rhai sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	10%	15%
Troseddu	Llai o achosion bwrglera oherwydd cyngor gan wasanaethau Cefnogi Pobl	5%	18%	30%
	Llai o droseddu treisgar oherwydd cyngor ar ddiogelwch personol gan wasanaethau Cefnogi Pobl	5%	18%	30%
Digartrefedd	Canran y bobl gyda phroblemau iechyd meddwl sydd wedi eu hatal rhag dod yn ddigartref oherwydd y rhaglen Cefnogi Pobl	50%	63%	100%
Gwasanaethau Cymdeithasol	Canran y bobl sy'n derbyn Cefnogi Pobl a fyddai angen derbyn ymyriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol anstatudol arnynt	5%	20%	40%
Gofal preswyl	Canran y bobl gyda phroblemau iechyd meddwl sy'n derbyn lefel uchel o gymorth Cefnogi Pobl ar hyn o bryd ac y byddai eu lefelau dibyniaeth yn codi pe na baent yn derbyn gwasanaethau drwy'r rhaglen	15%	25%	40%
	Canran y bobl gyda phroblemau iechyd meddwl sy'n derbyn lefel ganolig o gymorth Cefnogi Pobl ar hyn o bryd ac y byddai eu lefelau dibyniaeth yn codi pe na baent yn derbyn gwasanaethau drwy'r rhaglen	10%	19%	30%
	Canran y bobl gyda phroblemau iechyd meddwl sy'n derbyn lefel isel o gymorth Cefnogi Pobl ar hyn o bryd ac y byddai eu lefelau dibyniaeth yn codi pe na baent yn derbyn gwasanaethau drwy'r rhaglen	5%	27%	50%

Ffigur 9: Effeithiau ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl

Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y byddai mwy o bobl yn defnyddio rhai gwasanaethau iechyd o ganlyniad i Gefnogi Pobl, oherwydd y sefydlogrwydd y gall y gwasanaethau hyn ei ddarparu a natur ddi-drefn y grŵp cleientiaid hwn. Fodd bynnag, ar gyfartaledd roedd y newid a awgrymwyd i'r dybiaeth (18% yn lle 20%) mor fach fel y penderfynwyd cadw'r dybiaeth wreiddiol. Awgrymodd un a holwyd y gellid dileu digartrefedd ymhlith y grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth yn llwyr drwy ddarparu Cefnogi Pobl, ond teimlwyd y byddai tybiaeth fwy ceidwadol ond yn 50%.

4.4 Pobl gyda phroblemau alcohol

Maes effaith	Effaith	Model
Iechyd Corfforol	Llai o bobl yn mynychu adrannau Damweiniau ac Achosion Brys oherwydd llai o brofiad o drais	5%
	Llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd Cefnogi Pobl	5%
	Llai o bobl yn mynd i weld eu Meddyg Teulu oherwydd Cefnogi Pobl	5%
	% sy'n cael eu hatal rhag mynd yn gaeth i alcohol oherwydd Cefnogi Pobl, ac sy'n cwblhau triniaeth lwyddiannus	5%
	Effaith Cefnogi Pobl ar nifer y cleifion allanol ymhlith rhai sy'n gaeth i alcohol	5%
Iechyd Meddwl	Lleihad yn nifer y digwyddiadau iechyd meddwl difrifol oherwydd Cefnogi Pobl	5%
	Lleihad yn nifer yr ymweliadau gan gleifion allanol iechyd meddwl oherwydd Cefnogi Pobl	5%
Digartrefedd	Canran y bobl sydd wedi eu hatal rhag dod yn ddigartref oherwydd Cefnogi Pobl	25%
	Effaith Cefnogi Pobl ar leihau'r posibilrwydd y bydd tenantiaethau yn methu	25%

Ffigur 10: Effeithiau ar gyfer pobl gyda phroblemau alcohol

Ychwanegwyd y grŵp cleientiaid hwn wrth fynd drwy'r broses. Nid oedd wedi'i gynnwys yn yr astudiaeth ar gyfer Lloegr, a phenderfynwyd ei ychwanegu oherwydd ei bwysigrwydd strategol i'r rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru. Felly, ni chafodd ei gynnwys yn y broses ymgynghori. Ceir prinder data ynghylch faint o bobl gyda phroblemau alcohol sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, felly roedd y modelu ar gyfer y grŵp hwn yn fwy cyfyngedig nag ar gyfer y grwpiau cleientiaid eraill.

4.5 Pobl gyda phroblemau cyffuriau

Maes effaith	Effaith	Model	Cyfartalog	Uchaf
Iechyd Corfforol	Llai o bobl yn mynychu adrannau Damweiniau ac Achosion Brys oherwydd llai o brofiad o drais	5%	19%	30%
	Llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd Cefnogi Pobl	5%	22%	30%
	Llai o bobl yn mynd i weld eu Meddyg Teulu oherwydd Cefnogi Pobl	5%	21%	30%
	% sy'n cael eu hatal rhag mynd yn gaeth i gyffuriau oherwydd Cefnogi Pobl, ac sy'n cwblhau triniaeth lwyddiannus	5%	29%	70%
	Effaith Cefnogi Pobl ar y nifer o gleifion allanol ymhlith y rhai sy'n gaeth i gyffuriau	5%	21%	30%
Iechyd Meddwl	Lleihad yn nifer y digwyddiadau iechyd meddwl difrifol oherwydd Cefnogi Pobl	5%	19%	30%
	Lleihad yn nifer yr ymweliadau gan gleifion allanol iechyd meddwl oherwydd Cefnogi Pobl	5%	19%	30%
Troseddu	Canran y lleihad yn y nifer sy'n cael eu harestio oherwydd cyffuriau, o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl	5%	21%	30%

Maes effaith	Effaith	Model	Cyfartalog	Uchaf
	Canran y lleihad yn y nifer sy'n cael eu harestio am droseddau dwyn oherwydd Cefnogi Pobl	5%	21%	30%
	Llai o nifer o nosweithiau yn nalfa'r heddlu oherwydd Cefnogi Pobl	5%	21%	30%
	Llai o bobl yn ymddangos gerbron y llys	5%	21%	30%
	Canran y lleihad yn nifer y diwrnodau yn y carchar oherwydd Cefnogi Pobl	5%	20%	30%
Digartrefedd	Canran y bobl sydd wedi eu hatal rhag dod yn ddigartref drwy dderbyn Cefnogi Pobl	25%	42%	65%
	Effaith Cefnogi Pobl ar leihau'r posibilrwydd o denantiaethau yn methu	25%	43%	65%

Ffigur 11: Effeithiau ar gyfer pobl gyda phroblemau cyffuriau

Yr amrywiad mwyaf rhwng yr effeithiau model a'r effeithiau tybiedig yn sgîl yr ymgynghoriad oedd canran y bobl sydd wedi eu hatal rhag dod yn gaeth i gyffuriau, sy'n awgrymu bod hwn yn faes sydd angen mwy o ymchwil iddo. Er mwyn aros yn geidwadol gyda'r amcangyfrifon ar gyfer y model, penderfynwyd cadw'r lefel effaith ddiofyn (5%).

4.6 Pobl ifanc sengl ddigartref a phlant yn gadael gofal

Maes effaith	Effaith	Model	Cyfartalog	Uchaf
Iechyd Corfforol	Llai yn cael eu derbyn i'r ysbyty	30%	37%	40%
	Llai yn mynychu adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	30%	38%	45%
	Effaith ar hyd yr arhosiad yn yr ysbyty	30%	33%	40%
	Effaith Cefnogi Pobl ar nifer y bobl sengl ddigartref sy'n mynychu fel cleifion allanol	30%	33%	40%
Iechyd Meddwl	Llai yn cael eu derbyn i'r ysbyty fel achosion iechyd meddwl, oherwydd Cefnogi Pobl	30%	40%	50%
	Llai o gysylltiadau iechyd meddwl cymunedol gan bobl sengl ddigartref sy'n derbyn Cefnogi Pobl	30%	33%	40%
Troseddu	Lleihad mewn aildroseddu oherwydd bod gan y grŵp hwn dai sefydlog	5%	23%	30%
	Llai o achosion bwrglera oherwydd cyngor gan y gwasanaethau Cefnogi Pobl	30%	50%	90%
	Llai o droseddu treisgar oherwydd cyngor ar ddiogelwch personol gan y gwasanaethau Cefnogi Pobl	30%	33%	40%
Digartrefedd	Llai o denantiaethau yn methu oherwydd bod gan y grŵp hwn dai sefydlog	80%	65%	80%
	Canran y bobl a dderbyniodd gymorth gyda symud i gartref parhaol gan y gwasanaethau Cefnogi Pobl	30%	55%	90%
	Canran y bobl sydd mewn tai dros dro a fyddai'n cysgu ar y stryd fel arall	30%	35%	50%
Camdefnyddio cyffuriau ac alcohol	Llai o gamdefnyddio cyffuriau ymhlith y rhai sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaethau Cefnogi Pobl ac mewn cartrefi parhaol	30%	50%	100%

Maes effaith	Effaith	Model	Cyfartalog	Uchaf
	Llai o gamddefnyddio cyffuriau ymhlith y rhai sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaethau Cefnogi Pobl ac mewn llety dros dro	30%	60%	100%
	Llai o gamddefnyddio alcohol ymhlith y rhai sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaethau Cefnogi Pobl ac mewn cartrefi parhaol	30%	53%	100%
	Llai o gamddefnyddio alcohol ymhlith y rhai sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaethau Cefnogi Pobl ac mewn llety dros dro	30%	40%	50%

Ffigwr 12: Effeithiau ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref a phlant yn gadael gofal

Roedd y ffaith fod y rhan fwyaf o'r grŵp cleientiaid hwn yn byw mewn llety a reolir yn ofalus, fel cynteddau, gydag amcanion cynlluniedig ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth hyn, wedi effeithio ar sut yr amcangyfrifodd y rhanddeiliaid effaith y rhaglen Cefnogi Pobl. Lle'r oedd yr effeithiau tybiedig yn 100 y cant, teimlwyd nad oedd hyn yn ystyried defnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi penderfynu rhoi'r gorau i wasanaethau Cefnogi Pobl.

4.7 Cyn-droseddwy

Maes effaith	Effaith	Model	Cyfartalog	Uchaf
Iechyd Corfforol	Llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty ymhlith y rhai sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	18%	30%
	Llai yn mynychu adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	5%	19%	30%
	Canran y bobl sydd wedi eu hatal rhag dod yn gamddefnyddwyr cyffuriau oherwydd Cefnogi Pobl, ac sy'n cwblhau triniaeth lwyddiannus	5%	18%	30%
	Canran y bobl sydd wedi eu hatal rhag dod yn gamddefnyddwyr alcohol oherwydd Cefnogi Pobl, ac sy'n cwblhau triniaeth lwyddiannus	5%	18%	30%
	Effaith Cefnogi Pobl ar y nifer sy'n mynychu'r ysbyty fel cleifion allanol sydd mewn perygl o droseddu	5%	17%	30%
Iechyd Meddwl	Lleihad yn nifer y cysylltiadau iechyd meddwl cymunedol ymhlith y rhai sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	17%	30%
	Lleihad yn nifer y digwyddiadau iechyd meddwl difrifol oherwydd Cefnogi Pobl	5%	18%	25%
Troseddu	Lleihad yn nifer y rhai sy'n aildroseddu oherwydd bod ganddynt gartrefi sefydlog	5%	21%	30%
Digartrefedd	Canran y bobl sydd wedi eu hatal rhag dod yn ddigartref oherwydd derbyn Cefnogi Pobl	33%	48%	60%
	Effaith Cefnogi Pobl ar leihau'r posibilrwydd o denantiaethau yn methu	50%	54%	65%
Gwasanaethau Cymdeithasol	Effaith Cefnogi Pobl ar ganiatáu mamau i gael gafael ar gartrefi sefydlog ac adennill cystodaeth o'u plant	5%	15%	30%

Ffigwr 13: Effeithiau ar gyfer cyn-droseddwy

Mae cartrefi sefydlog yn ffactor risg pwysig yng nghyswllt troseddu, er mai dim ond un o nifer fawr o ffactorau troseddegol sy'n cyfrannu at aildroseddu ydyw. Felly, cadwyd yr amcangyfrifon diofyn ar gyfer effaith Cefnogi Pobl ar aildroseddu.

4.8 Pobl ddigartref neu botensial ddigartref

Maes effaith	Effaith	Model	Cyfarat alog	Uchaf
Iechyd Corfforol	Llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty	30%	33%	40%
	Llai yn mynychu adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	30%	33%	40%
	Effaith Cefnogi Pobl ar nifer y rhai digartref sy'n mynychu'r ysbyty fel cleifion allanol	30%	30%	30%
	Llai o bobl yn mynd i weld eu Meddyg Teulu o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl	30%	30%	30%
Iechyd Meddwl	Lleihad yn nifer y cysylltiadau iechyd meddwl cymunedol ymhlith pobl ddigartref sy'n derbyn Cefnogi Pobl	30%	30%	30%
	Llai o oedolion yn cael eu derbyn i'r ysbyty am resymau iechyd meddwl	30%	33%	40%
Troseddu	Llai o achosion bwrglera oherwydd cyngor gan y gwasanaethau Cefnogi Pobl	30%	33%	40%
	Llai o droseddu treisgar oherwydd cyngor ar ddiogelwch personol gan y gwasanaethau Cefnogi Pobl	30%	37%	40%
	Llai o aildroseddu oherwydd bod gan y grŵp hwn gartrefi sefydlog	5%	26%	30%
Digartrefedd	Effaith Cefnogi Pobl ar nifer y tenantiaethau tai parhaol sy'n methu ymhlith teuluoedd	50%	50%	50%
	Canran y teuluoedd a dderbyniodd gymorth gyda symud i lety parhaol gan y rhaglen Cefnogi Pobl	50%	50%	50%
Camdefnyddio cyffuriau ac alcohol	Effaith Cefnogi Pobl ar gamdefnyddwyr cyffuriau sy'n byw mewn cartrefi parhaol	30%	37%	50%
	Effaith Cefnogi Pobl ar gamdefnyddwyr cyffuriau sy'n byw mewn cartrefi dros dro	30%	37%	50%
	Effaith Cefnogi Pobl ar gamdefnyddwyr alcohol sy'n byw mewn cartrefi sefydlog	30%	30%	30%
	Effaith Cefnogi Pobl ar gamdefnyddwyr alcohol sy'n byw mewn cartrefi dros dro	30%	30%	30%

Ffigwr 14: Effeithiau ar gyfer pobl ddigartref a photensial ddigartref

Mae perthnasedd arbennig y gwasanaethau Cefnogi Pobl i'r grŵp cleientiaid hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr effeithiau tybiedig cymharol uchel. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno i raddau helaeth â'r tybiaethau hyn. Mae'r amcangyfrif diofyn ar gyfer llai o bobl yn aildroseddu yn adlewyrchu'r diffyg data ar broffil defnyddwyr gwasanaeth yn y grŵp hwn, h.y. nid yw'n glir faint o'r defnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi bod yn droseddwy.

4.9 Pobl hŷn

Maes effaith	Effaith	Model	Cyfarth alog	Uchaf
Iechyd Corfforol	Llai o gysylltiadau â nyrsys ardal gan bobl hŷn sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	15%	15%
	Llai o gysylltiadau cychwynnol â ffisiotherapyddion gan bobl hŷn sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	5%	5%
	Llai o gysylltiadau cychwynnol â therapyddion galwedigaethol gan bobl hŷn sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	8%	10%
	Llai o bobl hŷn yn cael eu derbyn i'r ysbyty ymhlith y rhai sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	30%	50%
	Llai o godymau ymhlith pobl hŷn sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	22%	30%
	Lleihad yn hyd yr arhosiad mewn ysbyty am resymau heb fod yn ymwneud â iechyd meddwl ymhlith pobl hŷn sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	15%	20%
	Llai o bobl hŷn sy'n derbyn Cefnogi Pobl yn mynd i weld eu Meddyg Teulu	5%	15%	20%
	Llai o rai sy'n derbyn Cefnogi Pobl yn mynychu'r ysbyty fel cleifion allanol	5%	11%	20%
Iechyd Meddwl	Llai o gysylltiadau iechyd meddwl cymunedol ymhlith pobl hŷn sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	12%	20%
	Llai o bobl hŷn sy'n derbyn Cefnogi Pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty am resymau iechyd meddwl	5%	17%	25%
	Lleihad yn hyd yr arhosiad mewn ysbyty am resymau iechyd meddwl ymhlith pobl hŷn sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	22%	40%
Troseddu	Llai o achosion bwrglera yn cael eu profi gan bobl hŷn sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	38%	70%
	Llai o droseddu treisgar o ganlyniad i gyngor ar ddiogelwch personol i bobl hŷn sy'n derbyn Cefnogi Pobl	5%	38%	70%
Digartrefedd	Lleihad yng nghyfanswm y bobl ddigartref (h.y. nid pobl hŷn yn unig) oherwydd bod pobl hŷn yn derbyn Cefnogi Pobl	1%	33%	65%
Gwasanaethau Cymdeithasol	Lleihad yn nifer y bobl hŷn sy'n derbyn ymyriadau gan y gwasanaethau cyhoeddus anstatudol o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl	20%	30%	40%
Gofal preswyl	Canran y bobl hŷn sydd ar hyn o bryd mewn tai gwarchodol iawn ac y byddai eu lefelau dibyniaeth yn codi o ganlyniad i beidio â derbyn gwasanaethau Cefnogi Pobl	5%	44%	100%
	Canran y bobl hŷn sydd ar hyn o bryd mewn tai gwarchodol ac y byddai eu lefelau dibyniaeth yn codi o ganlyniad i beidio â derbyn gwasanaethau Cefnogi Pobl	5%	54%	100%

Maes effaith	Effaith	Model	Cyfartalog	Uchaf
	Canran y bobl hŷn sydd ar hyn o bryd yn derbyn cymorth hyblyg ac y byddai eu lefelau dibyniaeth yn codi o ganlyniad i beidio â derbyn gwasanaethau Cefnogi Pobl	5%	49%	100%

Ffigwr 15: Effeithiau ar gyfer pobl hŷn

Mae'r amrywiad mawr rhwng tybiaeth y model ac amcangyfrifon y rhanddeiliaid ar gyfer y lleihad mewn digartrefedd efallai'n adlewyrchu camddealltwriaeth ynghylch sail yr amcangyfrif, sy'n edrych ar gyfanswm y bobl ddigartref yn hytrach na digartrefedd ymhlith pobl hŷn. Roedd angen gwneud hyn oherwydd prinder data ar faint o bobl ddigartref sydd hefyd yn bobl hŷn. Awgrymodd rhanddeiliaid y byddai'r angen am ofal preswyl yn llawer uwch ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn. Er bod hyn yn ddadl gredadwy, nid oedd unrhyw dystiolaeth bellach i gefnogi'r newid hwn, felly penderfynwyd cadw'r lefelau diofyn.

5.0 Darganfyddiadau a chasgliadau

Ar sail y dull a'r data a ddisgrifir yn yr adrannau blaenorol, dangosir manteision model y rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru, wedi eu categorio yn ôl y gwahanol grwpiau cleientiaid, yn ffigur 20 isod.

	Grŵp cleientiaid	Gwariant	Arbedion mesuradwy	Mantais net
e1	Merched yn ceisio lloches rhag trais yn y cartref	£8,240,763	£56,187,110	£47,946,346
e2	Pobl gydag anableddau dysgu	£37,227,399	£40,569,794	£3,342,394
e3	Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl	£14,813,351	£10,874,989	-£3,938,362
e4	Pobl gyda phroblemau alcohol	£3,624,740	£1,414,946	-£2,209,794
e5	Pobl gyda phroblemau cyffuriau	£3,740,525	£1,427,886	-£2,312,639
e8	Pobl ifanc sengl ddigartref a phlant yn gadael gofal	£7,364,103	£4,965,955	-£2,398,148
e9	Cyn-droseddwyr	£3,688,027	£3,568,315	-£119,712
e10	Pobl ddigartref neu botensial ddigartref	£13,928,379	£31,024,855	£17,096,475
	Pobl hyn	£14,464,553	£30,030,539	£15,565,985
	Cyfansymiau	£107,091,845	£180,064,389	£72,972,545

Ffigur 16: Darganfyddiadau cyffredinol yn ôl grŵp cleientiaid

Mae'n bwysig pwysleisio bod ffigurau negyddol yn cyfateb i grwpiau cleientiaid lle mae'r arbedion *mesuradwy* yn is na'r gwariant. O ystyried y cyfyngiadau o ran beth y gellir ei fesur, ni ddylid casglu felly bod y gwasanaethau hyn yn rhai sy'n cynnig gwerth gwael. Yr oll y mae'n ei olygu yw bod y fethodoleg yn gyfyngedig yn y maes hwnnw, am nifer o resymau efallai, e.e. mae'r data eilaidd yn brin ar gyfer grŵp cleientiaid arbennig neu mae'r manteision yn rhai i'r unigolyn yn bennaf yn hytrach nag i bwrs y wlad.

Ar sail y costau a'r defnyddwyr gwasanaeth a gynhwyswyd yn y model hwn, ac o ystyried cyfyngiadau'r dull hwn, rydym wedi cyfrifo arbediad o £180,064,389 i bwrs y wlad o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru. Mae hyn yn fudd ariannol net o £72,972,545, sydd cywerth ag arbediad o £1.68 am bob punt sy'n cael ei gwario.

5.1 Darganfyddiadau yn ôl grŵp cleientiaid

Datblygwyd y modelau ar sail grŵp cleientiaid yn ôl grŵp cleientiaid. Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi'r darganfyddiadau, sydd wedi eu dadgyfuno yn ôl effaith. Mae'r adrannau hyn hefyd yn crynhoi rhai o fanteision tybiedig y rhaglen Cefnogi Pobl na ellid eu mesur ar gyfer y model.

5.1.1 Merched yn ceisio lloches rhag trais yn y cartref

Y budd net sydd wedi ei fodelu (arbedion llai gwariant) ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn yw £47,946,346. Dengys Ffigur 21 isod bod osgoi costau i'r System Cyfiawnder Troseddol a'r GIG a fyddai'n cael eu hachosi gan ddigwyddiadau trais yn y cartref difrifol yn creu arbedion helaeth iawn oherwydd darparu Cefnogi Pobl i'r grŵp cleientiaid hwn. Y ddamcaniaeth y tu ôl i'r model, sy'n cael ei chefnogi gan ddata ansoddol, yw bod Cefnogi Pobl yn helpu i leihau lefel y troseddu sy'n cael ei ddiodef gan ferched a phlant sy'n profi trais yn y cartref, drwy sicrhau eu bod yn cynnal a chadw cartrefi sefydlog, darparu cymorth emosiynol a hyfforddiant sgiliau byw, drwy ddatblygu rhwydwaith cymdeithasol a sicrhau bod iechyd meddwl a chorfforol yn cael ei gynnal. Mae'r model hwn hefyd yn tybio ar sail tystiolaeth bod canran y merched sy'n profi trais yn y cartref sydd â phlant o dan 16 oed yn y cartref yn 72 y cant², ac y bydd 40 y cant³ o'r plant hyn hefyd yn dioddef o drais yn y cartref. Mae gwerth yr arbedion wedi eu cyfrifo ar gyfer y plant yn ogystal ag ar gyfer eu mamau.

Maes effaith	Effaith	Cyfanswm
Iechyd Corfforol	Digwyddiadau difrifol o drais yn y cartref	£25,363,007
	Mân ddigwyddiadau o drais yn y cartref	£148,944
	Llofruddiaeth	£651
	Ymosodiadau rhywiol	£141,253
	Nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty (cyffredinol)	£240,453
	Nifer sy'n mynychu fel cleifion allanol	£78,203
	Ymweliadau Meddyg Teulu (trais)	£215,881
	Ymweliadau Meddyg Teulu (cyffredinol)	£365,136
Iechyd Meddwl	Cysylltiadau cymunedol	£14,279
	Digwyddiadau difrifol	£153,068
Troseddu	Ymosodiadau rhywiol	£31,881
	Mân ddigwyddiadau o drais yn y cartref	£438,071
	Digwyddiadau difrifol o drais yn y cartref	£20,151,309
	Llofruddiaeth	£1,070,103
Digartrefedd	Llai o ddefnydd o lety brys	£4,348,383
	Tenantiaethau yn methu	£568,805
	Costau cymdeithasol digartrefedd	£2,857,675

Ffigur 17: Arbedion o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer merched sy'n ceisio lloches rhag trais yn y cartref

² Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2002) The Provision of Accommodation and Support for Households Experiencing Domestic Violence in England.

³ Walby S (2004) The cost of Domestic Violence.

Mae'r model ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn yn sensitif iawn i amcangyfrifon effaith uchel (gweler Adran 5.1) oherwydd y costau uchel sy'n gysylltiedig â digwyddiadau difrifol o drais yn y cartref.

Ceir ystod o fanteision i'r grŵp cleientiaid hwn – rhai na ellir eu disgrifio yn ôl gwerth ariannol. Mae'r manteision an-ariannol hyn yn cynnwys:

- ansawdd bywyd gwell i'r unigolyn a'r plant drwy fwy o annibyniaeth;
- mae'r unigolyn yn llai agored i niwed;
- iechyd gwell;
- mwy o opsiynau ynghylch lle a sut i fyw;
- mwy o sefydlogrwydd fel bod merched a phlant yn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol, ac fel bod plant yn gallu derbyn addysg;
- llai o ofn; a
- cymryd mwy o ran yn y gymuned (sydd o fudd i'r unigolyn a chymdeithas).

5.1.2 Pobl gydag anableddau dysgu

Y budd net sydd wedi ei fodelu (arbedion llai gwariant) ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn yw £3,342,394. Mae'r llynyddiaeth yn nodi nifer o wahanol fanteision a allai ddeillio o ddarparu cymorth tai. Roedd y dystiolaeth ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu wedi ei seilio'n ansoddol ac nid oedd yn bosibl modelu nifer o'r manteision. Er bod hyn hefyd yn wir ar gyfer grwpiau cleientiaid eraill, roedd yn arbennig o wir am bobl gydag anableddau dysgu. Y prif enghreifftiau o fanteision heb eu costio ar gyfer y grŵp hwn yw ansawdd bywyd gwell i'r unigolion a'u teuluoedd. Yr effaith fesuradwy fwyaf oedd o ran defnyddio gwasanaethau gofal preswyl a lleoliadau i oedolion.

Maes effaith	Effaith	Cyfanswm
Iechyd Corfforol	Nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty	£250,764
	Nifer sy'n mynychu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	£19,654
	Hyd yr arhosiad	£2,382,263
	Siwrneiau ambiwlans	£13,430
	Ymweliadau Meddyg Teulu	£17,012
	Nifer sy'n mynychu fel cleifion allanol	£11,893
Iechyd Meddwl	Hyd yr arhosiad	£1,253,304
	Nifer sy'n mynychu fel achosion Iechyd Meddwl	£9,178
	Cysylltiadau cymunedol	£5,312
Troseddu	Achosion bwrglera	£7,920
	Troseddu treisgar	£1,567
Digartrefedd	Atal digartrefedd	£596,116
Gofal cymdeithasol	Ymyriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol anstatudol	£674,023
Gofal preswyl	Gofal preswyl	£32,437,394
	Lleoliadau i oedolion - seibiant	£1,393,738

	Lleoliadau i oedolion - parhaol	£1,496,219
--	---------------------------------	------------

Ffigwr 18: Arbedion o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu

Mae'r ffaith na ellir mesur nifer o'r manteision posibl sydd wedi eu nodi yn y llenyddiaeth, ac na ellir ychwaith rhoi gwerth economaidd ystyrion iddynt, ynghyd â chost unedol uchel y cymorth, yn golygu bod gan y manteision yr ydym wedi gallu eu modelu werth economaidd isel o'i gymharu â'r gost lawn o ddarparu gwasanaethau Cefnogi Pobl i bobl gydag anableddau dysgu.

Mae un arbediad posibl sylweddol a fodolwyd yn ymwneud â lleihau hyd yr arhosiad. Mae tystiolaeth ansoddol yn awgrymu bod cymorth tai yn gallu cael effaith gadarnhaol ar iechyd drwy leihau oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty ac arosiadau diangen o hir yn yr ysbyty o ganlyniad i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y rhaglen Cefnogi Pobl, fel goruchwylio a monitro iechyd, datblygu sgiliau byw a chynnig cyngor a chymorth emosiynol.

5.1.3 Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl

Y budd net sydd wedi ei fodol (arbedion llai gwariant) ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn yw - £3,938,362. Y brif elfen o ran arbedion o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn yw: osgoi digwyddiadau iechyd meddwl difrifol (yn bennaf drwy sicrhau bod triniaeth yn cael ei chwblhau); osgoi gorfod mynd i unedau gofal preswyl; ac osgoi tenantiaethau yn methu a digartrefedd.

Maes effaith	Effaith	Cyfanswm
Iechyd Corfforol	Nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty	£23,837
	Hyd yr arhosiad	£22,645
	Nifer sy'n mynychu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	£7,840
	Siwrneiau ambiwlans	£5,357
	Ymweliadau Meddyg Teulu	£138,739
Iechyd Meddwl	Cysylltiadau cymunedol	£325,963
	Nifer sy'n mynychu fel achosion Iechyd Meddwl	£1,009,973
	Hyd yr arhosiad	£145,441
Troseddu	Achosion bwrglera	£12,342
	Troseddu treisgar	£1,563
Digartrefedd	Atal digartrefedd	£1,067,070
	Tenantiaethau yn methu	£1,311,079
Gwasanaethau Cymdeithasol	Ymyriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol anstatudol	£168,059
Gofal preswyl	Lefel uchel o gymorth Cefnogi Pobl	£5,553,394
	Lefel ganolig o gymorth Cefnogi Pobl	£626,320
	Lefel isel o gymorth Cefnogi Pobl	£455,359

Ffigwr 19: Arbedion o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl

Mae'r manteision nad ydynt wedi eu cynnwys yn y model yn cynnwys:

- ansawdd bywyd gwell i'r unigolyn, gan gynnwys mwy o annibyniaeth;
- iechyd gwell;
- mwy o opsiynau ynghylch lle a sut i fyw;
- dibynnu llai ar berthnasau a gofalwyr;
- atal mwy o broblemau iechyd meddwl a llai o achosion o hunanladdiad;
- lleihau'r baich gofalu ar ofalwyr (sy'n arwain at ansawdd bywyd gwell); a
- mynediad haws at wasanaethau priodol.

5.1.4 Pobl gyda phroblemau alcohol

Mae'r budd net sydd wedi ei fodelu (arbedion llai gwariant) ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn yn - £2,209,794. Ceir rhywfaint o dystiolaeth ar gyfer defnyddio gwasanaethau cyhoeddus gan bobl gyda phroblemau alcohol (lle nad yw'r rhain yn cael eu nodi yn y modelau eraill) felly nid ydym wedi modelu rhai effeithiau. Y rheswm yn bennaf am hyn yw'r anhawster gyda dadgyfuno pobl gyda phroblemau alcohol o bobl eraill sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Felly, mae'r model hwn wedi'i gyfyngu o ran sgôp o'i gymharu â'r modelau eraill yn yr astudiaeth hon.

Maes effaith	Effaith	Cyfanswm
Iechyd Corfforol	Nifer sy'n mynychu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	£2,894
	Siwrneiau ambiwlans	£1,977
	Nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty	£18,687
	Triniaethau llwyddiannus	£47,537
Iechyd Meddwl	Digwyddiadau difrifol	£3,379
Digartrefedd	Atal digartrefedd	£492,400
	Llai o ddefnydd o lety brys	£750,058
	Tenantiaethau yn methu	£98,009

Ffigwr 20: Arbedion o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer pobl gyda phroblemau alcohol

Hefyd, mae mwy o fanteision yn debygol o fod i bobl gyda phroblemau alcohol nag y gellid eu mesur ar gyfer y model. Mae'n debyg y byddai'r manteision hyn yn debyg i'r rhai y byddai pobl gyda phroblemau cyffuriau yn eu mwynhau, fel a nodir yn yr adran nesaf.

5.1.5 Pobl gyda phroblemau cyffuriau

Y budd net sydd wedi ei fodelu (arbedion llai gwariant) ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn yw - £2,312,639. Mae'r arbedion mwyaf yn ymwneud â thenantiaeth a digartrefedd, yn ogystal â'r gost sy'n gysylltiedig â llai o droseddu gan y grŵp cleientiaid hwn. Ceir corff mawr o ymchwil a wnaed yn ddiweddar yn sefydlu'r cysylltiad rhwng troseddu a chymryd cyffuriau dosbarth A, ac mae hyn wedi ein galluogi i fodelu effeithiau lleihau camddefnyddio cyffuriau ar droseddu yn fanwl.

Maes effaith	Effaith	Cyfanswm
Iechyd Corfforol	Nifer sy'n mynychu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	£2,312
	Siwrneiau ambiwlans	£1,579
	Nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty	£14,928
	Ymweliadau Meddyg Teulu	£3,478
	Triniaethau llwyddiannus	£24,112
	Nifer sy'n mynychu fel cleifion allanol	£6,995
Iechyd Meddwl	Digwyddiadau iechyd meddwl difrifol	£2,699
	Ymweliadau fel cleifion allanol	£2,007
Gofal cymdeithasol	Plant sy'n derbyn gofal	£2,673
Troseddu	Nifer sy'n cael eu harestio oherwydd cyffuriau	£43,142
	Nifer sy'n cael eu harestio am droseddau dwyn	£137,135
	Nosweithiau yn nalfa'r heddlu	£3,289
	Ymddangosiadau yn y llys	£41,371
	Diwrnodau yn y carchar	£71,379
Digartrefedd	Atal digartrefedd	£393,334
	Llai o ddefnydd o lety brys	£599,155
	Tenantiaethau yn methu	£78,291

Ffigur 21: Arbedion o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer pobl gyda phroblemau cyffuriau

Yn ychwanegol at y budd ariannol sydd wedi'i ddisgrifio yn yr astudiaeth hon, roedd tystiolaeth gref yn y llynyddiaeth o'r manteision cadarnhaol i'r grŵp cleientiaid hwn nad oedd yn bosibl eto inni eu mesur na phennu eu gwerth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ansawdd bywyd gwell;
- lleihad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- rhagolygon cyflogaeth gwell;
- yn fwy tebygol o gwblhau rhaglenni triniaeth; a
- cyfraddau hunanladdiad is.

Mae'r manteision hyn yn rhai sy'n cael eu mwynhau a'u gwerthfawrogi gan y defnyddiwr cyffuriau unigol, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ceir cryn dystiolaeth ansoddol o'r effaith gadarnhaol y gall cymorth tai ei chael yn aml ar fywyd di-drefn y defnyddiwr cyffuriau, a sut y mae'r manteision hyn hefyd yn gysylltiedig â chanlyniadau llwyddiannus o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, fel triniaeth gyffuriau.

5.1.6 Pobl ifanc sengl ddigartref a phlant yn gadael gofal

Y budd net sydd wedi ei fodelu (arbedion llai gwariant) ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn yw - £2,398,148. Mae'r arbediad mwyaf sydd wedi'i fodelu yn ymwneud â chostau sy'n gysylltiedig â digartrefedd ac aildroseddu.

Maes effaith	Effaith	Cyfanswm
Iechyd Corfforol	Nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty	£22,560
	Nifer sy'n mynychu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	£10,483
	Siwrneiau ambiwlans	£4,775
	Nifer sy'n mynychu fel cleifion allanol	£10,572
	Triniaeth gyffuriau	£136,386
	Triniaeth alcohol	£66,543
Iechyd Meddwl	Nifer sy'n cael eu derbyn fel achosion Iechyd Meddwl	£269,259
	Cysylltiadau cymunedol	£7,870
Digartrefedd	Tenantiaethau yn methu	£1,028,291
	Symud i lety parhaol	£1,453,565
	Pobl yn byw mewn llety dros dro a fyddai fel arall yn cysgu ar y stryd	£184,949
Troseddu	Aildroseddu	£1,468,837
	Achosion bwrglera	£104,054
	Troseddu treisgar	£106,985
	Troseddu treisgar yn erbyn pobl sy'n cysgu ar y stryd	£90,819

Ffigwr 22: Arbedion o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer pobl ifanc sengl ddigartref a phlant yn gadael gofal

Mae'n debyg bod y manteision na ellid eu mesur ar gyfer y model hwn yn rhai arbennig o arwyddocaol i'r grŵp cleientiaid hwn. Yn enwedig, mae'r ffaith nad yw'r astudiaeth hon ond yn ceisio mesur manteision a deimlwyd mewn un flwyddyn yn golygu nad yw manteision tymor hir gallu trosglwyddo'n sefydlog gyda chymorth i fod yn oedolyn wedi eu mesur ar gyfer y grŵp agored i niwed hwn. Gallai'r rhain gynnwys newidiadau mawr o ran cyrhaeddiad gydol oes yr unigolyn. Gallai'r manteision hyn gynnwys:

- ansawdd bywyd gwell ar gyfer yr unigolyn, gan gynnwys mwy o annibyniaeth;
- mae'r unigolyn yn llai agored i niwed;
- iechyd gwell;
- mwy o opsiynau o ran lle a sut i fyw;
- mwy o sefydlogrwydd fel bod pobl yn gallu delio â'u problemau eraill, fel camddefnyddio sylweddau, diweithdra, problemau iechyd meddwl, troseddu a phroblemau ymddygiad;
- llai o ofn troseddu;
- mynediad haws at wasanaethau priodol; a
- cymryd mwy o ran yn y gymuned, sydd o fudd i'r unigolyn ac i gymdeithas.

5.1.7 Cyn-droseddwy

Y budd net sydd wedi ei fodelu (arbedion llai gwariant) ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn yw - £119,712. Mae'r arbediad mwyaf sydd wedi'i fodelu yn gysylltiedig â chostau'n ymwneud â digartrefedd ac aildroseddu.

Maes effaith	Effaith	Cyfanswm
Iechyd Corfforol	Nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty	£14,072
	Nifer sy'n mynychu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	£2,179
	Siwrneiau ambiwlans	£1,489
	Nifer sy'n mynychu fel cleifion allanol	£4,121
	Triniaeth alcohol	£15,750
	Triniaeth gyffuriau	£7,297
Iechyd Meddwl	Cysylltiadau iechyd meddwl cymunedol	£1,227
	Digwyddiadau iechyd meddwl difrifol	£3,180
Troseddu	Llai o aildroseddu	£1,908,699
Digartrefedd	Atal digartrefedd	£611,785
	Tenantiaethau yn methu	£55,351
	Llai o ddefnydd o lety brys	£931,914
Gwasanaethau Cymdeithasol	Cystodaeth plant	£11,244

Ffigur 23: Arbedion o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer cyn-droseddwy.

Mae rhywfaint o ymchwil wedi'i chyflawni sy'n dangos cysylltiad rhwng llety neu gartref sefydlog a chyfraddau llithro'n ôl, ond nid yw hyn eto wedi gallu dangos cysylltiad achosol na lefel yr effaith. Rydym felly wedi tybio bod effaith gwasanaethau Cefnogi Pobl ar gyfraddau troseddu yn lleihad o bump y cant. Mae lleihau troseddu hefyd yn faes lle mae rhywfaint o waith yn cael ei wneud i bennu gwerth y manteision i'r unigolyn, fel costau dynol. Yn y model hwn, mae gwerthoedd y lleihad mewn troseddu damcaniaethol wedi dod o adolygiad o dystiolaeth gan yr Uned Allgau Cymdeithasol ac nid yw'n cynnwys ond y manteision i'r Trysorlys (h.y. y manteision i'r System Cyfiawnder Troseddol drwy lai o amser heddlu, er enghraifft).⁴ Mae'n debyg pe bai'r costau dynol hyn o ran troseddu yn cael eu modelu'n llawn, y byddai'r manteision o ran lleihau troseddu yn uwch nag a amcangyfrifwyd ar gyfer yr astudiaeth hon.

Roedd dystiolaeth gref yn y llynyddiaeth o nifer o fanteision nad oedd yn bosibl inni eu mesur na phennu eu gwerth ac, felly, na ellid eu modelu. Mae'r rhain yn bennaf yn ymwneud â manteision i'r defnyddiwr gwasanaeth unigol neu i'r gymuned lle mae'r unigolyn yn byw, ac yn cynnwys:

- ansawdd bywyd gwell i'r unigolyn drwy gymorth tai mwy hyblyg;
- iechyd gwell;
- mwy o sefydlogrwydd llety neu gartref fel bod pobl sydd mewn perygl o droseddu yn gallu delio â'r problemau eraill yn eu bywydau fel alcohol neu gyffuriau;

⁴ Uned Allgau Cymdeithasol (2002) *Lleihau Aildroseddu*.

- dysgu sgiliau byw sylfaenol a gollwyd ar ôl byw mewn uned sefydliadol;
- mynediad haws at wasanaethau priodol; a
- llai o ofn troseddu yn y gymuned.

5.1.8 Pobl ddigartref neu botensial ddigartref

Y budd net sydd wedi'i fodelu (arbedion llai gwariant) ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn yw £17,096,475. Mae'r arbediad mwyaf yn ymwneud â digartrefedd ac aildroseddu.

Maes effaith	Effaith	Cyfanswm
Iechyd Corfforol	Nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty	£2,038,141
	Nifer sy'n mynychu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	£591,901
	Siwrneiau ambiwlans	£269,644
	Nifer sy'n mynychu fel cleifion allanol	£955,145
	Triniaeth alcohol	£644,101
	Triniaeth gyffuriau	£1,600,547
Iechyd Meddwl	Cysylltiadau cymunedol	£261,399
	Nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty	£1,013,540
Troseddu	Achosion bwrglera	£198,770
	Troseddu treisgar	£137,915
	Troseddu treisgar (pobl sy'n cysgu ar y stryd)	£702,452
	Aildroseddu	£5,528,975
Digartrefedd	Atal digartrefedd	£6,936,717
	Pobl sy'n cysgu ar y stryd	£4,077,481
	Llai o ddefnydd o lety brys	£5,775,022
Gwasanaethau Cymdeithasol	Cystodaeth plant	£293,098

Ffigur 24: Arbedion o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer pobl ddigartref neu botensial ddigartref

Ceir tystiolaeth bod darparu cymorth gyda thai yn gallu atal digartrefedd newydd ac atal llithro'n ôl i fod yn ddigartref. Mae hon yn berthynas gymhleth a phrin yw'r dystiolaeth ynghylch ar ba lefelau y mae'n digwydd. Ceir trafferthion hefyd ynghylch sut fath o wasanaeth sydd angen ei ystyried, a pharhad y gwasanaeth hwnnw.

Nid yw'r data yng Nghymru yn dadgyfuno pobl sengl ddigartref o deuluoedd digartref mewn ffordd fel y gellir modelu ar wahân. Mae'r model hwn felly'n canolbwyntio ar arbedion sy'n gysylltiedig â phobl sengl ddigartref.

Budd ariannol unrhyw leihad posibl mewn troseddu yw'r effaith fwyaf nesaf sydd wedi'i mesur gan y model. Mae hyn yn cynnwys y manteision posibl sy'n deillio o lai o droseddu yn erbyn, yn ogystal â chan bobl sengl ddigartref.

Yn ychwanegol at y manteision ariannol uchod, ceir ystod eang o fanteision posibl neu ddisgwyliedig ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn sydd wedi eu nodi yn y llenyddiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ansawdd bywyd gwell ar gyfer yr unigolyn, gan gynnwys mwy o annibyniaeth;
- mae'r unigolyn yn llai agored i niwed;
- iechyd gwell;
- mwy o opsiynau o ran lle a sut i fyw;
- mwy o sefydlogrwydd fel bod pobl ddigartref yn gallu delio â'u problemau eraill, fel camddefnyddio sylweddau, diweithdra, problemau iechyd meddwl, troseddu a phroblemau ymddygiad;
- llai o ofn troseddu;
- mynediad haws at wasanaethau priodol; a
- cymryd mwy o ran yn y gymuned, sydd o fudd i'r unigolyn ac i gymdeithas.

5.1.9 Pobl hŷn

Y budd net sydd wedi'i fodelu (arbedion llai gwariant) ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn yw £15,565,985. Yr arbediad mwyaf sylweddol yw bod llai o angen gofal preswyl ar bobl oherwydd Cefnogi Pobl. Mae'r model yn gwneud y dybiaeth geidwadol y byddai angen i 5% o bobl hŷn sy'n derbyn gwasanaethau Cefnogi Pobl fynd i gartrefi preswyl oni bai am y rhaglen Cefnogi Pobl.

Maes effaith	Effaith	Cyfanswm
Iechyd Corfforol	Nyrsys ardal	£109,880
	Ffisiotherapyddion	£49,108
	Therapyddion galwedigaethol	£6,757
	Nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty	£1,140,140
	Codymau	£106,827
	Hyd yr arhosiad	£1,083,133
	Ymweliadau Meddyg Teulu	£177,710
	Nifer sy'n mynychu fel cleifion allanol	£162,118
Iechyd Meddwl	Cysylltiadau cymunedol	£7,583
	Nifer sy'n cael eu derbyn fel achosion iechyd meddwl	£56,965
	Hyd yr arhosiad	£2,933,299
Troseddu	Achosion bwrglera	£36,420
	Troseddu treisgar	£38,220
Digartrefedd	Atal digartrefedd	£2,952,372
Gwasanaethau Cymdeithasol	Ymyriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol anstatudol	£1,389,398
Gofal preswyl	Lefelau dibyniaeth (tai gwarchodol iawn)	£303,266

	Lefelau dibyniaeth (tai gwarchod)	£16,902,185
	Lefelau dibyniaeth (cymorth hyblyg)	£2,575,150

Ffigur 25: Arbedion o ganlyniad i'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer pobl hŷn

Ni fyddai'r holl gostau hyn yn cael eu hysgwyddo gan y sector cyhoeddus oherwydd bod cyllid ar gyfer gofal preswyl yn cael ei asesu yn ôl prawf modd, ac mae'r cleientiaid eu hunain efallai'n talu amdano'n rhannol. Ni fu'n bosibl gwahanu'r budd ariannol hwn yn fanteision i'r Trysorlys ac yn fanteision heb fod yn rhai i'r Trysorlys. Fodd bynnag, byddai y mwyafrif o'r costau yn dod o bwrs y wlad.

Tybiwyd ymhellach y byddai gweddill y 95 y cant, pe na baent yn derbyn cymorth tai, yn gallu byw'n annibynnol ond y byddai angen mwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol arnynt o ganlyniad.

Ni fu'n bosibl modelu nifer o fanteision eraill sy'n gysylltiedig â chymorth tai yr oedd tystiolaeth gref ar eu cyfer yn y llynyddiaeth. Mae'r rhain yn bennaf yn ymwneud â manteision i'r unigolyn neu i'w ofalwr, neu i'r gymuned lle mae'r person yn byw, ac yn cynnwys:


- ansawdd bywyd gwell ar gyfer yr unigolyn, gan gynnwys mwy o annibyniaeth;
- iechyd gwell;
- mwy o opsiynau o ran lle a sut i fyw;
- dibynnu llai ar berthnasau a gofalwyr;
- llai o faich gofal ar ofalwyr;
- pobl hŷn yn cymryd mwy o ran yn y gymuned ac yn teimlo'n llai ynysig;
- llai o ofn troseddu; a
- mynediad haws at wasanaethau priodol.

5.2 Casgliadau

Daw cyfanswm y budd ariannol sy'n deillio o'r rhaglen Cefnogi Pobl fel a fodelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon i £180,064,389. Mae hyn cywerth â £1.68 am bob punt sy'n cael ei gwario. Mae'n bwysig ailadrodd bod gwerth manteision y rhaglen Cefnogi Pobl wedi eu cyfrifo ar hyn o bryd ar sail cyfres o dybiaethau. Mae'r tybiaethau yn y modelau yn debygol o newid wrth i ymchwil i'r rhaglen gael ei chyflawni. Mae'r dystiolaeth ynghylch gwerth y manteision sydd heb eu costio – manteision i'r defnyddiwr gwasanaeth unigol, eu teuluoedd ac i'r gymuned ehangach yn bennaf – hefyd yn debygol o wella gydag amser. Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar 130 o wahanol dybiaethau effaith. Gellid gwerthuso pob un o'r effeithiau hynny ar wahân ac mae'r astudiaeth hon yn dangos bod angen cyflawni gwaith ymchwil pellach i effaith y rhaglen Cefnogi Pobl.

Ar gyfer y naw grŵp cleientiaid a astudiwyd, mae'r sylfaen dystiolaeth yn awgrymu bod manteision yn deillio o'r rhaglen Cefnogi Pobl i'r unigolyn sy'n derbyn cymorth tai, eu teuluoedd ac i'r gymuned ehangach yn ogystal ag i bwrs y wlad. Er bod rhai o'r manteision posibl hyn yn eithaf hawdd inni eu mesur a phennu eu gwerth (er enghraifft yr adnoddau ar gyfer delio gydag arosiadau hirach yn yr ysbyty), mae eraill yn fwy anodd (er enghraifft gwerth iechyd gwell i'r unigolyn). Gallai'r manteision an-ariannol hyn fod yn bwysig dros ben i'r unigolyn, eu teuluoedd

ac i gymdeithas yn gyffredinol a bydd angen eu hystyried ochr yn ochr â'r manteision sydd wedi eu modelu wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi gwariant cyhoeddus. Cafodd yr arbedion i bwrs y wlad a fodelwyd gennym eu grwpio yn wahanol feysydd thematig, a dangosir y darganfyddiadau ar gyfer pob maes thematig yn ffigur 26 isod.



Ffigur 26: Arbedion a fodelwyd yn ôl gwahanol feysydd thematig

Iechyd

Mae cyfanswm y budd ariannol a fodelwyd sy'n deillio o'r rhaglen Cefnogi Pobl i'r maes thematig hwn yn £46,281,801. Mae manteision iechyd yn cyfrif am 26 y cant o gyfanswm yr arbedion a gyfrifwyd. Mae hyn yn cynnwys arbedion yng nghyswllt yr angen am wasanaethau iechyd o ganlyniad i statws iechyd gwell neu sydd heb newid, neu o ganlyniad i fynediad priodol at wasanaethau. Mae'r arbedion posibl a fodelwyd yn cynnwys: y nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty; hyd yr arhosiad ac oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty; gwasanaethau iechyd meddwl; ymweliadau â'r Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys; mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol; a defnydd o wasanaethau triniaeth (er enghraifft gwasanaethau trin cyffuriau). Mae'r manteision iechyd sydd wedi eu modelu yn rhai i'r Trysorlys. Mae ymchwil wrthi'n cael ei chyflawni i werth ariannol y manteision iechyd sydd heb eu costio o ran effeithiau iechyd gwell ar yr unigolyn.

Byw'n annibynnol

Mae cyfanswm y budd ariannol a fodelwyd sy'n deillio o'r rhaglen Cefnogi Pobl i'r maes thematig hwn yn £61,743,028. Mae'r manteision a gostiwyd o ran byw'n annibynnol yn cyfrif am 34 y cant o gyfanswm gwerth y manteision fel a gyfrifwyd gan yr astudiaeth hon. Mae hyn yn cynnwys manteision o ran dewis ac amrediad o opsiynau llety priodol. Mae'r manteision a gostiwyd o ran byw'n annibynnol yn gysylltiedig â lefel y gofal cartref nyrsio neu gartref gofal y byddai wedi bod eu hangen ar bobl pe na bai'r rhaglen Cefnogi Pobl yn bodoli. Mae byw'n annibynnol yn faes lle ceir hefyd nifer o fanteision helaeth heb eu costio (fel mantais rhoi dewis i'r unigolyn) ond ychydig iawn o ymchwil sydd wedi'i gwneud i geisio pennu gwerth ariannol y rhain. Efallai fod rhai o'r manteision a gostiwyd yn rhai i'r unigolyn yn hytrach nag i'r Trysorlys ond, ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl eu gwahanu, er eu bod yn cynrychioli ond cyfran fach o'r arbedion.

Gofal cymdeithasol

Mae cyfanswm y budd ariannol a fodelwyd sy'n deillio o'r rhaglen Cefnogi Pobl i'r maes thematig hwn yn £2,538,498. Mae gwerth y budd ariannol i'r maes gofal cymdeithasol yn cyfrif am 1.4 y cant o gyfanswm gwerth y manteision. Mae hyn yn cynnwys budd o ran llai o angen am wasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal personol yn y cartref a gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, fel a nodir uchod, mae effaith y galw llai am fathau mwy dwys o gymorth (gan gynnwys gofal preswyl) wedi ei chynnwys o dan y thema byw'n annibynnol.

Digartrefedd

Mae cyfanswm y budd ariannol a fodelwyd sy'n deillio o'r rhaglen Cefnogi Pobl i'r maes thematig hwn yn £37,167,832. Mae'r budd hwn yn cyfrif am ychydig o dan 21 y cant o gyfanswm gwerth y manteision. Mae hyn yn cynnwys budd o ran dod o hyd i a chadw cartref sefydlog. Mae'r manteision a fodelwyd yn cynnwys cost tenantiaethau yn methu i awdurdodau lleol, cost defnyddio llety dros dro a manteision osgoi digartrefedd a chysgu ar y stryd.

Troseddu

Mae cyfanswm y budd ariannol a fodelwyd sy'n deillio o'r rhaglen Cefnogi Pobl i'r maes thematig hwn yn £32,333,226. Mae gwerth y budd hwn i'r maes troseddu yn cyfrif am ychydig dros 18 y cant o gyfanswm gwerth y manteision. Mae hyn yn cynnwys y budd o lai o droseddu gan rai grwpiau cleientiaid (pobl gyda phroblemau cyffuriau a chyn-droseddwr) a llai o risg y bydd cleientiaid Cefnogi Pobl yn dod yn ddiodefwr troseddu. Mae'r modelau'n costio'r lleihad yn yr angen am wasanaethau'r System Cyfiawnder Troseddol a chostau eraill sy'n gysylltiedig â throseddu. Yn y modelau ar gyfer pobl hŷn a merched sy'n ceisio dianc rhag trais yn y cartref, mae costau cymdeithasol troseddu (h.y. y costau nad ydynt yn rhai i'r Trysorlys) hefyd wedi eu cyfrifo, ond cyfran fach o gyfanswm yr arbedion ydyw'r rhain.

Manteision cyffredinol y rhaglen Cefnogi Pobl

Ceir nifer o fanteision sydd heb eu costio sy'n gyffredin ar draws yr wyth grŵp cleientiaid a gynhwyswyd yn yr astudiaeth hon, a lle nad oedd yn bosibl inni bennu eu gwerth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ansawdd bywyd gwell i'r unigolyn gan gynnwys mwy o annibyniaeth;
- iechyd gwell;
- dibynnu llai ar berthnasau a gofalwyr;
- byw'n annibynnol, gan gynnwys mwy o ddewis i unigolion o ran llety, ffordd o fyw a darparu sgiliau fel y gellir gwneud y dewis hwn;
- mwy o opsiynau ynghylch lle a sut i fyw;
- mae'r unigolyn yn fwy abl i gymryd rhan yn y gymuned. Mae hyn yn berthnasol i nifer o feysydd gan gynnwys teimlo'n llai ynysig a lleihau allgau cymdeithasol, a mwy o sefydlogrwydd i bobl gyda bywydau di-drefn;
- llai o ofn troseddu; a
- mynediad haws at wasanaethau priodol.

Dylid nodi bod yr arbedion posibl a gostiwyd yn y model yn ymwneud â chyfnod o flwyddyn. I rai cleientiaid, mae gwasanaethau Cefnogi Pobl yn gallu cael effaith gydol oes efallai. Er enghraifft,

gall gwasanaethau sy'n darparu ymyriadau lefel isel i bobl hŷn ohirio gwaeledd iechyd a chywasgu'r cyfnod o forbidrwydd sy'n codi fel rhan o'r broses heneiddio. Felly hefyd i droseiddwyr a defnyddwyr sylweddau, gall ymyriadau buan gael effaith barhaol ar aildroeddu a phroblemau camddefnyddio sylweddau. Gall y rhaglen Cefnogi Pobl hefyd gael effaith bwysig ar blant defnyddwyr gwasanaeth, drwy ddarparu amgylchedd gwell i fagu plant a gwella iechyd eu rhieni. Nid yw'r manteision posibl tymor hirach hyn wedi eu hymgorffori'n benodol yn y gwaith a wnaed hyd yma.